

Elin Jones AS

Y Llywydd

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

12 Ebrill 2022

Annwyl Lywydd

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Cafodd ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) ei osod ar 4 Ebrill 2022.

Wrth drafod Memorandwm Rhif 2, tanlinellwyd eto'r problemau'n ymwneud â phryd y caiff memoranda cydsyniad deddfwriaethol eu gosod gerbron y Senedd.

Ar 7 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Femorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd mewn perthynas â'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 16 a 18 Tachwedd 2021 yn ystod y cyfnod pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.<sup>1</sup>

Yn dilyn ein trafodaeth gychwynnol ar Femorandwm Rhif 2 ar 7 Chwefror 2022, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 8 Chwefror yn mynegi pryder ynghylch ansawdd Memorandwm Rhif 2 a'r diffyg eglurder yn y wybodaeth a gyflwynwyd ynddo. Ar 3 Mawrth 2022, gosododd y Gweinidog fersiwn ddiwygiedig o Femorandwm Rhif 2 ac ysgrifennodd atom i gadarnhau bod y fersiwn flaenorol a osodwyd ar 7 Ionawr wedi'i thynnu'n ôl yn ffurfiol.

<sup>1</sup> Rydym yn deall bod fersiwn gynharach o Femorandwm Rhif 2 wedi'i gosod gerbron y Senedd yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2021.



Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn dweud, "Nid oedd yn bosibl gosod y Memorandwm hwn o fewn y pythefnos arferol a ragnodir yn [Rheol Sefydlog 29], oherwydd maint a chymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd".

Fel y gŵyr y Pwyllgor Busnes, mae Rheol Sefydlog 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol dim hwy na phythefnos, fel arfer, ar ôl i'r darpariaethau perthnasol gael eu cynnig mewn Bil neu drwy welliant. Yn yr achos hwn, mae wedi cymryd llawer mwy na phythefnos ac, yn ein barn ni, mwy na'r hyn sy'n briodol.

Fel y nodwn yng nghasgliad rhif dau yn ein hadroddiad yn ddiweddar, nid yw'n dderbyniol nad oeddem yn gallu trafod y gwelliannau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2021 yn llawn tan fis diwethaf oherwydd nad oedd y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol gwreiddiol yn addas at ddibenion craffu. Mae wedi amharu ar allu Aelodau o'r Senedd i graffu ar y gwelliannau mewn modd amserol ac ystyrlon.

Fel y gwyddoch, nid yw'n anghyffredin i femoranda cydsyniad deddfwriaethol gyrraedd yn hwyr, yn anffodus. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae fy Mhwyllgor i a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi tynnu sylw at yr oedi cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r memoranda cydsyniad atodol gofynnol ar gyfer y [Bil Etholiadau](#) a'r [Bil Diogelwch Adeiladau](#), a'r effaith a gafodd hyn ar allu'r Senedd i ystyried darpariaethau pwysig yn y biliau hynny.

O ran y Bil Diogelwch Adeiladau, mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi **ysgrifennu** atom yn pryderu am y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwnnw. Er nad ydym wedi trafod yr ohebiaeth honno'n fanwl eto, rwy'n manteisio ar y cyfle hwn i dynnu'ch sylw ato.

Fel Pwyllgor, byddai'n well gennym beidio â gorfod tynnu sylw Llywodraeth Cymru at ein pryderon ynghylch ei thuedd rheolaidd i osod memoranda sy'n cyfyngu ar ein gallu i graffu arnynt. Nid ydym yn credu, fodd bynnag, y gellir diystyru'n mater hwn. Mae'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati ar hyn o bryd i ofyn am ddarpariaethau i Gymru ym Miliau'r DU sy'n mynd drwy Senedd y DU yn ychwanegu at ddiffyg democrataidd cynyddol oherwydd bod y Senedd yn cael ei heithrio rhag llunio cyfraith a fydd yn gymwys yng Nghymru. O dan amgylchiadau o'r fath, credwn fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i sicrhau bod Aelodau o'r Senedd yn cael gwybodaeth fwy amserol fel y gallant wneud cymaint â phosibl o fewn y cyfyngiadau naturiol sy'n codi wrth i Senedd arall ddeddfu ar gyfer Cymru ar faterion datganoledig.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, ac at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

